WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

19 Rhagfyr 2013
www.wao.gov.uk

# Lwfans Defnyddwyr Ceir Hanfodol a Lwfans Gwyliau Blynyddol Prif Swyddogion

# **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

## Adroddiad er Budd y Cyhoedd

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod neu unrhyw berson arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Roedd tîm PWC a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys Lynn Pamment ac Ian Davies.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion yn y prosesau a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth benderfynu i brynu Lwfans Defnyddwyr Ceir Hanfodol (LDCH) a Lwfans Gwyliau Blynyddol (LGB) Prif Swyddogion. O ganlyniad i fethiannau o'r fath, mae'r Cyngor, yn fy marn i, wedi gweithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas â'r taliadau hyn.


Crynodeb ac Argymhellion 4

Argymhellion 5

Cefndir 7

Roedd y penderfyniadau a wnaed i wneud taliadau i brynu'r LDCH ac LGB yn anghyfreithlon 8

Ceir gwendidau yng ngweithdrefnau llywodraethu'r Cyngor 11

Nid oedd adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ddigonol at ddibenion gwneud penderfyniadau 11

Cafodd diben prynu ei danseilio gan y cynnig i gadw'r lwfans ar gyfer gwyliau blynyddol 12

Y camau nesaf 13

# Crynodeb ac Argymhellion

1 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried p'un a ddylwn, er budd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn i'r corff archwiliedig ei ystyried neu er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd ato.

2 Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiant yn y trefniadau llywodraethu a diffygion yn y prosesau a ddefnyddiwyd wrth benderfynu i brynu hawliadau Lwfans Defnyddwyr Ceir Hanfodol (LDCH) a Lwfans Gwyliau Blynyddol (LGB) Prif Swyddogion. O ganlyniad i fethiannau o'r fath, mae'r Cyngor, yn fy marn i, wedi gweithredu'n anghyfreithlon mewn perthynas â'r taliadau hyn. Credaf ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r digwyddiadau hyn o fewn y Cyngor. Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor egluro'r camau pwysig a gymerwyd ganddo i wella trefniadau ac i leihau'r risg y caiff methiannau llywodraethu o'r fath eu hailadrodd gymaint â phosibl.

3 Ym mis Ebrill 2013, tynnodd Swyddog Adran 151 y Cyngor fy sylw at ei bryderon ynghylch y prosesau a fabwysiadwyd i wneud taliadau (prynu) i Brif Swyddogion er mwyn unioni eu telerau ac amodau â rhai'r aelodau o staff eraill yn y Cyngor mewn perthynas â hawliadau i LCDHau ac LGBau. Roedd y trefniant yn cynnwys ildio buddiannau a oedd yn ddyledus i grŵp y Prif Swyddogion o dan delerau ac amodau cyflogaeth presennol y Cydbwyllgor Trafod (JNC) yn gyfnewid am daliad untro o dan gytundeb cyfaddawd. Yn dilyn hynny, cefais ohebiaeth yn codi pryderon yn y maes hwn gan aelod o'r cyhoedd yn rhinwedd fy swydd fel archwilydd statudol y Cyngor. Roedd y pryderon a godwyd yn cynnwys materion llywodraethu a gonestrwydd. Penderfynais fod sawl un o'r materion a godwyd yn berthnasol i'm cylch gwaith statudol ac y dylid ymchwilio iddynt.

4 Fel rhan o'm harchwiliad, ceisiais gasglu a yw'r Cyngor wedi gwneud taliadau cyfreithlon i Brif Swyddogion. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y taliadau a wnaed i Brif Swyddogion brynu'r LDCH a'r LGB yn anghyfreithlon. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar dri mater.

5 Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â'r awdurdod i wneud y penderfyniad i brynu'r lwfans. Pan wnaed y penderfyniad, dim ond y Cyngor oedd â'r pŵer i wneud penderfyniadau ynghylch taliadau o'r fath i'r Prif Weithredwr. Ar y pryd, roedd gan y Prif Weithredwr bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau o'r fath ynghylch prif swyddogion eraill. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, nid oes cofnod clir o'r ffordd y gwnaed y penderfyniad a chan bwy. Mae'n amlwg na chafodd y penderfyniad ei wneud gan gorff aelodau wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol ac mae hyn, ynddo'i hun, yn gwneud y penderfyniad o ran y Prif Weithredwr yn anghyfreithlon ynghyd ag unrhyw daliadau dilynol a wnaed iddo.

6 Mae'r ail fater yn ymwneud â chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau gan unigolion â buddiant ariannol neu bersonol. Roedd gan bob Prif Swyddog wrthdaro buddiannau am fod ganddynt fuddiant ariannol neu bersonol yn y penderfyniad. Am nad oes penderfyniad wedi'i gofnodi'n ffurfiol, nid oes unrhyw gofnodion y gwnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Byddai'r ffactorau hyn hefyd yn golygu bod y penderfyniad yn anghyfreithlon ynghyd ag unrhyw daliadau dilynol.

7 Mae'r trydydd mater yn ymwneud â'r gofyniad yng nghyfansoddiad y Cyngor fod yn rhaid i benderfyniad, a wneir o dan bwerau dirprwyedig, gael ei gyhoeddi er mwyn iddo fod yn gyfreithlon. Nid oes unrhyw dystiolaeth i'r penderfyniad i brynu'r lwfansau hyn ar gyfer Prif Swyddogion a thalu iawndal er mwyn gwneud hynny, gael ei gyhoeddi. Unwaith eto, mae hyn ynddo'i hun yn golygu nad oedd y penderfyniad wedi'i awdurdodi a'i fod yn anghyfreithlon ynghyd ag unrhyw daliadau dilynol.

8 Yn fy marn i, mae gwersi i'w dysgu gan y Cyngor o ran y prosesau a ddilynwyd wrth wneud y penderfyniad i brynu hawliad Prif Swyddogion i LDCH ac LGB. Digwyddodd hyn yn 2012. Ers hynny mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau llywodraethu a nodwyd yn fy adroddiad blaenorol er budd y cyhoedd. Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu hasesu fel rhan o'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol a gynhelir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

# Argymhellion

Gwneuthum nifer o argymhellion yn fy Adroddiad er Budd y Cyhoedd ym mis Mawrth 2013. Nid wyf wedi ailadrodd yr argymhellion hynny yn yr adroddiad hwn, er bod llawer ohonynt yn berthnasol i'm canfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

## Cofnodion o benderfyniadau

A1 Dylai cofnodion clir o'r holl benderfyniadau gael eu cadw, gan nodi'r penderfyniad a wnaed, pwy a wnaeth y penderfyniad a phryd y cafodd y penderfyniad ei wneud. At hynny, wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, dylid rhoi ystyriaeth briodol i b'un a ddylai'r penderfyniadau hyn gael eu cofnodi yng nghofnod penderfyniadau'r Cyngor. Dylai'r ystyriaeth hon gael ei dogfennu.

## Gweithredu penderfyniadau

A2 Ni ddylai swyddogion weithredu penderfyniadau oni bai eu bod yn gwybod pwy sydd wedi gwneud y penderfyniad. Dylai swyddogion gadw tystiolaeth o'r ystyriaeth hon.

## Cyngor swyddog statudol

A3 Wrth wneud penderfyniadau, dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ystyried a oes angen ceisio barn ffurfiol y Swyddog A151 neu'r Swyddog Monitro ac a yw'r farn hon wedi'i rhoi. Pan fo angen barn ffurfiol, dylai proses fod ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ar y swyddog statudol er mwyn iddo gymryd y farn honno. Dylai swyddogion hefyd gofnodi sut y cafodd y cyngor hwn ei ddilyn.

## Adroddiadau

**A4** Dylai adroddiadau a lunnir i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ddilyn fformat safonol, gan nodi'n benodol awdur yr adroddiad a phwy yr ymgynghorwyd ag ef. Dylai adroddiadau gynnwys rhestr gynhwysfawr o'r opsiynau sydd ar gael.

# Cefndir

9 Cafodd fy nhîm archwilio wybod gan Swyddog A151 y Cyngor ar 11 Ebrill 2013, yn dilyn trafodaethau â'r Prif Weithredwr Dros Dro, ei bod am ein hysbysu bod taliadau wedi'u gwneud o ganlyniad i brynu'r LDCH a'r LGB ar gyfer Prif Swyddogion ym mis Ebrill 2012. Cafodd cais Rhyddid Gwybodaeth ei wneud i'r Cyngor mewn perthynas â'r LDCH a brynwyd. Ystyriodd y Swyddog A151 fod hwn yn fater yr hoffwn ei ystyried fel rhan o'm harchwiliad, ynghyd â'r LGB a brynwyd.

10 Eglurwyd i ni fod y Cyngor, fel rhan o'i broses i unioni telerau ac amodau cyflogeion y Cyngor, a gwmpesir gan delerau ac amodau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), wedi rhoi'r gorau i'r LDCH ymhlith y rhan fwyaf o'i staff ar 31 Mawrth 2012, yn dilyn cytundeb yn 2009 a oedd yn rhoi tair blynedd o ddiogelwch i'r staff hyn. Nid oedd y trefniant hwn yn cynnwys Prif Swyddogion ar y pryd a gafodd eu cwmpasu gan delerau ac amodau JNC. Roedd gan y Prif Swyddogion hawl i LGB ychwanegol hefyd yn unol â thelerau ac amodau cenedlaethol JNC.

11 Y trefniant ar gyfer prynu'r ddau lwfans hyn oedd y byddai'r swm a fyddai'n cael ei dalu i Brif Swyddogion unigol yn cyfateb i werth tair blynedd o bob lwfans, lle'r oedd gan y swyddogion hawliad i'r lwfans o dan eu telerau ac amodau presennol. Dim ond cael cynnig prynu LDCH a gafodd Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr ac nid LGB. Fodd bynnag, yn hwyr yn y broses, cafodd Prif Swyddogion eraill gynnig yr opsiwn o gadw eu telerau ac amodau presennol mewn perthynas â'u LGB. Penderfynodd pum Prif Swyddog gymryd yr opsiwn i gadw eu telerau ac amodau presennol mewn perthynas â'u LGB.

12 Cafodd y taliadau eu gwneud yn y pen draw ym mis Ebrill 2012 yn dilyn cyflwyniad i'r swyddogion yn cynnwys ACAS a derbyn cytundebau cyfaddawd a lofnodwyd gan y Cyngor. Diben cytundebau o'r fath oedd dangos bod yr iawndal wedi'i dderbyn ac indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw honiadau o dorri contract mewn perthynas â phrynu lwfansau ar gyfer y Prif Swyddogion. Roedd y trefniant yn cynnwys Prif Swyddogion yn ildio buddiannau ar waith yn gyfnewid am daliadau digolledu.

13 Yr hyn a oedd yn peri pryder penodol i'r Swyddog A151 oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y taliadau wedi bod yn destun proses gymeradwyo ffurfiol, ond roeddent yn cynnwys taliad i'r Prif Weithredwr.

# Roedd y penderfyniadau a wnaed i wneud taliadau i brynu'r LDCH ac LGB yn anghyfreithlon

14 Rhwng mis Mawrth 2011 a mis Ebrill 2012, cafwyd gwahanol drafodaethau a chyfarfodydd mewn perthynas â phrynu LDCH ac LGB, yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

15 Ym mis Rhagfyr 2011, cafodd y Cyngor gyngor cyfreithiol a nododd fod cynghorwyr cyfreithiol y Cyngor yn cytuno â'r Cyngor fod y gofyniad i sicrhau uniondeb a 'Statws Sengl' mewn perthynas â threfniadau fel LDCH ar sail gadarn, gan fod risg y gallai'r fath fuddiannau fod yn darged hawliadau cyflog cyfartal yn y dyfodol gan y rheini a oedd yn gwneud gwaith o werth cyfatebol ond nad oeddent yn mwynhau'r buddiannau. Roedd y cynghorwyr cyfreithiol hefyd yn cytuno bod cymryd camau a oedd yn gwneud iawn i unigolion a gollodd y buddiant hwn yn ymddangos yn gymesur a'i bod yn rhesymegol ystyried y sefyllfa yn yr un modd â thaliadau iawndal statws sengl eraill.

16 Ar 10 Ionawr 2012, cynghorodd y Swyddog Monitro y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol drwy e-bost y byddai'n bosibl i'r Prif Weithredwr ddefnyddio ei bwerau dirprwyedig i bennu adolygiad o lwfans gwyliau blynyddol a lwfans defnyddwyr ceir hanfodol ar gyfer Prif Swyddogion. Nid oedd y rhan fwyaf o'r Prif Swyddogion a gafodd eu recriwtio neu eu dyrchafu ers 2009 yn derbyn y lwfansau hyn. Mae'r Swyddog Monitro wedi ein hysbysu iddo dybio nad oedd y Prif Weithredwr, a ddyrchafwyd yn 2010, yn derbyn LDCH. Nododd y Swyddog Monitro hefyd na fyddai angen i benderfyniad y Prif Weithredwr gael ei roi ar y fewnrwyd i aelodau ond y byddai angen cynnal ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, ei Ddirprwy Arweinwyr a'r aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau Dynol.

17 Ar 19 Ionawr 2012, trafodwyd adroddiad mewn cyfarfod anffurfiol o'r Tîm Rheoli Corfforaethol (a ddilynodd gyfarfod ffurfiol y Tîm Rheoli Corfforaethol), a nododd gynigion o ran prynu'r lwfansau. Yn bresennol yn y cyfarfod roedd y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Adnoddau Dynol. Cafodd yr adroddiad ei baratoi gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. Nid oedd agenda ar gyfer y cyfarfod hwn ac ni chymerwyd cofnodion.

18 Roedd yr adroddiad yn cynnwys tri opsiwn ar gyfer ymdrin â'r hawliadau gwahanol rhwng Prif Swyddogion a grwpiau eraill o staff o ran LDCH ac roedd hefyd yn cynnig y dylid prynu LGB.

19 Nid oes cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod ar 19 Ionawr 2012. Roedd dau o'r swyddogion a oedd yn bresennol o'r farn y cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn siarad ag Arweinydd y Cyngor ynghylch y cynigion. Mae'n amlwg o gyfweliadau a gynhaliwyd gennym na chafwyd y fath ymgynghoriad â'r Arweinydd na'i Ddirprwy Arweinwyr nac aelod y Cabinet ar gyfer Adnoddau Dynol. At hynny, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i unrhyw ymgynghoriad (fel y cynghorwyd gan y Swyddog Monitro) ddigwydd.

20 Cyflwynwyd y cynigion i'r Tîm Arwain (yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol) ar 2 Mawrth 2012, a phwysleisiwyd y risgiau posibl o hawliadau cyflog cyfartal pe na bai'r Cyngor yn parhau â'r cynigion. Yn dilyn hyn, gwnaeth nifer o Brif Swyddogion lobïo i gadw'r telerau ac amodau presennol o ran yr LGB. Nid yw'n glir pwy a wnaeth y penderfyniad i gynnig hwn fel opsiwn, am nad oes dogfennaeth ffurfiol ynghylch y penderfyniad hwn. Cefais wybod gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol mai'r Prif Weithredwr a wnaeth y penderfyniad i wneud newid hwyr i'r cynnig i gynnwys hyn fel opsiwn. Cefais wybod gan y Prif Weithredwr fod hwn yn benderfyniad a gymerwyd gan naill ai'r Dirprwy Brif Weithredwr neu'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

21 Penderfynodd pum Prif Swyddog ddewis cadw'r telerau ac amodau presennol o ran LGB.

22 Ceir diffyg eglurder o ran pwy a wnaeth y penderfyniad i barhau â phrynu'r lwfansau er mae'n glir nad aelod a wnaeth. Ni chafodd y penderfyniadau a wnaed o dan bwerau dirprwyedig eu rhoi ar y rhestr penderfyniadau ar y fewnrwyd ac nid oeddent ar gael i aelodau eu galw i mewn.

23 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn awdurdodi'r Prif Weithredwr neu unrhyw gyfarwyddwr a phennaeth gwasanaeth i arfer pwerau'r Cabinet mewn perthynas â thelerau ac amodau cyflogaeth swyddogion. Nid yw hyn yn cynnwys telerau ac amodau'r Prif Weithredwr, y mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan aelodau. Fodd bynnag, pan fydd gwrthdaro buddiannau, yna dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan ba bynnag gorff a wnaeth ddirprwyo'r pŵer i wneud y penderfyniad hwnnw. Yn yr achos hwn, y Cabinet fyddai'r corff hwnnw.

24 Er mwyn gwneud penderfyniad dirprwyedig cyfreithlon, rhaid iddo gael ei gyhoeddi, gan gynnwys, lle bo modd, yn electronig, a rhaid iddo fod ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor o fewn deuddydd i gael ei wneud fel arfer. Ar gyfer rhai categorïau o benderfyniadau, rhaid i'r unigolyn sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad anfon copïau o gofnodion pob penderfyniad o'r fath o fewn yr un terfyn amser at gadeiryddion pob pwyllgor trosolwg a chraffu.

25 Unwaith y bydd penderfyniad wedi cael ei wneud a'i gyhoeddi gall gael ei weithredu ar ddiwedd y cyfnod o dri diwrnod gwaith oni chaiff ei alw i mewn. Yn ogystal, rhaid i benderfyniadau a wneir o dan bwerau dirprwyedig swyddog mewn perthynas â rhai categorïau gael eu cofnodi'n ysgrifenedig a rhaid rhoi gwybod i aelodau drwy Fwletin Gwybodaeth.

26 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod un penderfyniad wedi'i wneud a effeithiodd ar bob Prif Swyddog (h.y. nid ymdriniwyd â'r penderfyniad ynghylch hawliad y Prif Weithredwr ar wahân i hawliadau'r swyddogion eraill). Nid oes unrhyw dystiolaeth glir i nodi pwy a gymerodd y penderfyniad. Mae'n glir nad aelodau a wnaeth y penderfyniad.

27 Mae fy nghasgliad bod y penderfyniad i brynu lwfansau yn anghyfreithlon yn seiliedig ar dri mater.

28 Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â'r awdurdod i wneud y penderfyniad i brynu'r lwfans. Pan wnaed y penderfyniad, dim ond y Cyngor oedd â'r pŵer i wneud penderfyniadau ynghylch taliadau o'r fath i'r Prif Weithredwr. Ar y pryd, roedd gan y Prif Weithredwr bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau o'r fath ynghylch Prif Swyddogion eraill. Nid oes cofnod clir o'r ffordd y gwnaed y penderfyniad. Mae'n amlwg na chafodd y penderfyniad ei

wneud gan gorff aelodau wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol ac mae hyn, ynddo'i hun, yn gwneud y penderfyniad o ran y Prif Weithredwr yn anghyfreithlon ynghyd ag unrhyw daliadau dilynol a wnaed iddo.

29 Mae'r ail fater yn ymwneud â chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau gan unigolion â buddiant ariannol neu bersonol. Ni chaiff unigolyn gymryd rhan mewn proses gwneud penderfyniadau mewn awdurdod lleol os oes posibilrwydd gwirioneddol y byddai buddiant ariannol neu bersonol yng nghanlyniad y penderfyniad yn dylanwadu arno (*gweler R v Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ex parte Kirkstall Valley Campaign Ltd* [1996] 3 All ER 304; *Porter v Magill* [2002] 2 AC 357). Mae anghymhwyso swyddog rhag cymryd rhan mewn proses gwneud penderfyniadau yn gymwys i swyddog sy'n darparu cyngor ysgrifenedig neu lafar i Bwyllgor neu Fwrdd gwneud penderfyniadau. Byddai'r ffactorau hyn hefyd yn golygu bod y penderfyniad yn anghyfreithlon ynghyd ag unrhyw daliadau dilynol.

30 Roedd gan Grŵp y Prif Swyddogion fuddiant ariannol neu bersonol yn y penderfyniad. Ni chafodd y buddiannau hyn eu datgan a chymerodd un neu ragor o'r unigolion hyn ran yn y broses gwneud penderfyniadau. Yn gyffredinol, os bydd unigolyn â buddiant anghymhwyso yn cymryd rhan mewn proses gwneud penderfyniadau, bydd y penderfyniad a wneir yn annilys (*gweler achos Kirkstall Valley ac R v Hendon RDC ex parte Chorley* [1933] 2 KB 696). Adlewyrchir hyn yng nghyfansoddiad y Cyngor.

31 Mae'r trydydd mater yn ymwneud â'r gofyniad yng nghyfansoddiad y Cyngor fod yn rhaid i benderfyniad, a wneir o dan bwerau dirprwyedig, gael ei gyhoeddi er mwyn iddo fod yn gyfreithlon. Nid oes unrhyw dystiolaeth i'r penderfyniad i brynu'r lwfansau hyn ar gyfer Prif Swyddogion gael ei gyhoeddi. Unwaith eto, mae hyn ynddo'i hun yn golygu nad oedd y penderfyniad wedi'i awdurdodi a'i fod yn anghyfreithlon ynghyd ag unrhyw daliadau dilynol.

32 Yn ei e-bost dyddiedig 10 Ionawr 2012, mae'r Swyddog Monitro yn nodi 'na fyddai angen i benderfyniad y Prif Swyddog Gweithredol gael ei roi ar y fewnrwyd ar gyfer aelodau'. Mae dau fater mewn perthynas â chyngor y Swyddog Monitro. Yn gyntaf, yn fy marn i, mae'r cyngor yn anghywir. Yn ail, er hyn, ni chafodd cyngor llawn y Swyddog Monitro ei ddilyn.

33 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir bod yn rhaid i benderfyniad, a wneir yn unol â phwerau dirprwyedig, gael ei gyhoeddi er mwyn iddo fod yn gyfreithlon. Os na wneir hyn, ni roddir y cyfle i'r aelodau alw penderfyniad i mewn. Felly, ni chafodd y penderfyniad ei awdurdodi ac roedd drwy hynny'n anghyfreithlon.

34 Yn ogystal, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cadeiryddion pob pwyllgor trosolwg a chraffu wedi cael copïau o'r cofnodion yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Bydd methiant i gydymffurfio â'r elfen hon o'r cyfansoddiad hefyd yn arwain at benderfyniad nad yw wedi'i awdurdodi ac sydd felly'n anghyfreithlon.

35 At hynny, nododd y Swyddog Monitro y dylid ymgynghori â'r Arweinydd a'i Ddirprwyon cyn gwneud y penderfyniad. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ymgynghoriad o'r fath gael ei gynnal. Ni wnaeth Swyddogion, felly, ddilyn cyngor y Swyddog Monitro.

36 Yn unol â hynny, yn fy marn i, nid oedd y penderfyniad a wnaed mewn perthynas â swyddogion heblaw am y Prif Weithredwr wedi'i awdurdodi ychwaith ac felly roedd yn anghyfreithlon. Bydd unrhyw daliadau a wneir o dan y penderfyniad anghyfreithlon hwn yn torri'r gyfraith.

# Ceir gwendidau yng ngweithdrefnau llywodraethu'r Cyngor

37 Mae'r pryderon a amlinellwyd gennyf uchod yn bwysig o safbwynt llywodraethu yn ogystal â safbwynt cyfreithiol ac yn deillio o fethiannau mewn trefniadau llywodraethu ar ran y Cyngor. Mae gennyf bryderon penodol ynghylch y canlynol:

- **a** Y diffyg dogfennaeth yn cofnodi'r penderfyniad ffurfiol a wnaed i fwrw ati a gwneud cynnig i Brif Swyddogion o ran LDCH ac LGB.
- **b** Y diffyg eglurder dilynol ynghylch sut y cafodd y penderfyniad ei wneud a gan bwy.
- **c** Y broses anffurfiol a ddilynwyd i gael cyngor gan y Swyddog Monitro a chywirdeb y cyngor a roddwyd.
- **ch** Y methiant i ddilyn y cyngor a roddwyd gan y Swyddog Monitro beth bynnag (heb ystyried anghywirdeb y cyngor).
- **d** Y methiant i gyhoeddi'r penderfyniad ar restr penderfyniadau'r Cyngor.
- **dd** Y methiant i ystyried ac ymdrin yn briodol â gwrthdaro buddiannau'r rhai a gymerodd ran yn y broses gwneud penderfyniadau.

38 Yn ogystal â'r gwendidau a nodwyd uchod, mae meysydd eraill yn peri pryder i mi o safbwynt llywodraethu. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud ag elfennau eraill o'r broses gwneud penderfyniadau.

## Nid oedd adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ddigonol at ddibenion gwneud penderfyniadau

39 Er bod adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol i'r TRhC anffurfiol ar 19 Ionawr 2012 yn cynnwys argymhellion, nid oedd yn dilyn fformat adrodd safonol y Cyngor. Yn benodol, ni wnaeth:

- **a** Nodi'r awdur, enw'r corff a oedd yn ystyried yr adroddiad na'r dyddiad y cafodd ei ystyried;
- **b** Rhoi sylwadau ar unrhyw ymgynghoriadau gyda swyddogion statudol a swyddogion eraill a wnaeth gymryd lle neu a ddylai fod wedi cymryd lle. Mae'r Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro wedi cadarnhau nad yngynghorwyd â hwy ar yr adroddiad.

40 Rhoddwyd tri opsiwn yn adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol o ran dileu LDCH o Brif Swyddogion. Un opsiwn na chafodd ei gynnwys na'i ystyried oedd dileu'r lwfans o Brif Swyddogion heb iawndal. Dylai'r opsiwn hwn fod wedi cael ei ystyried er mwyn gwneud penderfyniad cytbwys.

## Cafodd diben prynu ei danseilio gan y cynnig i gadw'r lwfans ar gyfer gwyliau blynyddol

**41** Diben prynu oedd unioni telerau ac amodau gwasanaeth er mwyn lleihau'r risg o hawliadau cyflog cyfartal yn y dyfodol. Fodd bynnag, cafodd y cynigion eu diwygio yn hwyr iawn yn y broses i gynnwys opsiwn i Brif Swyddogion gadw eu telerau ac amodau presennol mewn perthynas â LGB. O ganlyniad, caiff diben y cynigion ei negyddu. Unwaith eto, nid yw'n glir sut y cafodd y penderfyniad i gynnwys yr opsiwn pellach hwn ei wneud, gyda gwrthdaro barn ynghylch y digwyddiadau a dim cofnod clir o'r penderfyniad.

## Y camau nesaf

**42** Mae Adran 25 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. Yn y cyfarfod, bydd yn rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- **a** a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- **b** a yw am dderbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a
- **c** pha gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

### Diolchiadau

**43** Hoffwn ddiolch i swyddogion ac aelodau'r Cyngor am eu cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Anthony Barrett

Archwilydd Penodedig
19 Rhagfyr 2013